# Sut i wneud bocs nythu adar

# How to make a bird nest box

Ymddiriedolaeth Natur Gwent Wildlife Trust

Mae'r canllaw yma ar gyfer adeiladu bocs nythu gan ddefnyddio dril a sgriwiau. Mae defnyddio morthwyl a hoelion yn bosibl ond bydd yn lleihau hirhoedledd y bocs nythu oherwydd yr ehangu a'r crebachu ar y pren. Os yw'r pren yn gwahanu ac yn achosi bylchau, mae'r bocs nythu yn fwy tebygol o ollwng a bydd yr adar ynddo'n agored i'r gwynt.

## Bydd angen:

- Planc o bren heb ei drin 150mm x 1330mm ac o leiaf 15mm o drwch
- Tâp mesur
- Pensil
- Llif
- Dril
- Sgriwiau (4mm x 35mm yn gweithio'n dda)
- Llen o blastig sy'n ddigon llydan i orchuddio'r to. Mae cwrs gwrthleithder yn gwneud y gwaith yn dda
- Gwn styffylu
- Gwifren gardd / ffensio fetel

This guide is for constructing a nest box using a drill and screws. Using a hammer and nails is possible but will decrease the longevity of the nest box due to the expansion and contraction of the timber. If the timber separates and causes gaps, the nest box is more likely to leak and birds become exposed to wind.

## You will need:

- Plank of untreated timber 150mm x 1330mm and at least 15mm thick
- Tape measure
- Pencil
- Saw
- Drill
- Screws (4mm x 35mm work well)
- Sheet of plastic wide enough to cover the roof. Damp proof course does the job well
- Staple gun
- Metal garden/fencing wire

## Dimensiynau

**Defnyddiwch bren cynaliadwy heb ei drin, 1330mm o hyd i gyd.**

**Mae'r dimensiynau yma'n seiliedig ar drwch pren o 15mm.**

**Maint y twll mynediad -**

**Titw Tomos las: 25mm, Titw mawr: 28mm, Aderyn y to: 32mm**


## Dimensions

**Use sustainable untreated timber, 1330mm total length.**

**These dimensions are based on a wood thickness of 15mm.**

**Entrance hole size -**

**Blue tit: 25mm, Great tit: 28mm, House sparrow: 32mm**



## Canllaw cam wrth gam i’w roi at ei gilydd


## Step-by-step assembly guide


1. Atodwch yr ochrau i'r cefn, gan ddefnyddio'r ymyl hiraf. Defnyddiwch linell bensil 4cm o'r gwaelod fel canllaw.

1. Attach sides to the back, using the longest edge. Use a pencil line 4cm from the bottom as a guide.

2. Llithrwch y sylfaen i'r gwaelod a'i atodi. Driliwch rai tyllau yn y gwaelod rhag ofn i ddŵr glaw fynd i mewn.

2. Slide base into the bottom and attach. Drill some holes in the base just in case rainwater gets in.






3. Atodwch y tu blaen. Os gallwch chi, ceisiwch ychwanegu ongl at dop y darn blaen fel ei fod yn eistedd yn esmwyth ar yr ochrau a'r blaen pan fyddwch chi'n ychwanegu'r to.

3. Attach front. If you can, try to add an angle to the top of the front piece so that when you add the roof, it sits smoothly on the sides and front.



4. Defnyddiwch ddarn o gwrs gwrthleithder (DPC) fel colfach, ei styffylu i'r cefn yn gyntaf, plygwch y plastig dros y top a styffylu ar yr ochr arall. Wedyn rhowch y to yn ei le a styffylu'r DPC i'r to yn ddiogel.


4. Use a piece of damp proof course (DPC) as a hinge, staple to the back first, fold the plastic over the top and staple on the other side. Then put the roof in place and staple the DPC to the roof securely.





5. Driliwch ac ychwanegwch sgriwiau at y to a’r cefn ar y naill ochr a'r llall. Fel canllaw, dylai'r sgriwiau fod tua 10cm o'r blaen ar y to a 15cm o'r gwaelod ar y cefn. Gwnewch yn siŵr bod y sgriwiau'n gwthio allan tua 1cm.

5. Drill and add screws to the roof and back on either side. As a guide, the screws should be approximately 10cm from the front on the roof and 15cm from the bottom on the back. Make sure the screws stick out about 1cm.




6. Torrwch wifren fetel a'i lapio o amgylch y sgriwiau i ddal y to yn ei le yn ddiogel.

6. Cut metal wire and wrap it around the screws to secure the roof.



7. Atodwch blât twll nythu metel i roi gwarchodaeth ychwanegol rhag ysglyfaethwyr.

7. Attach a metal nest hole plate to give added protection from predators.



## Wedi Gorffen

## Finished



# Bocs Nythu Adar - Gwybodaeth

## Lleoli eich bocs nythu

**Y lleoliad gorau ar gyfer eich bocs nythu fydd rhwng 1.5m a 2m uwch ben y ddaear, wedi'i osod ar goeden, wal neu ffens. Efallai y gwelwch chi wefannau yn dweud wrthych chi am ei roi o leiaf 3m uwch ben y ddaear ond bydd hyn yn ei gwneud yn anodd ei osod ac yn amhosibl monitro a glanhau heb ystol.**

**Gosodwch y bocs i wynebu'r gogledd ddwyrain fel ei fod allan o olau haul uniongyrchol ac yn wynebu i ffwrdd oddi wrth y prifwyntoedd.**

**Hefyd, gwnewch yn siŵr nad yw'r fynedfa yn wynebu ar i fyny neu bydd glaw yn mynd i mewn.**

**Ceisiwch sicrhau nad oes unrhyw lefydd wrth ei ymyl lle gall cath glwydo, ac wedyn cydio mewn aderyn sy'n mynd i mewn ac allan.**

**Gwnewch yn siŵr nad oes unrhyw beth yn rhwystro'r fynedfa, fel canghennau, a pheidiwch â'i osod ger teclynnau bwydo adar.**

**Mae'r tymor nythu yn dechrau ym mis Mawrth fel rheol felly gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi'r bocs nythu i fyny yn ei le erbyn mis Chwefror fan bellaf.**

# Bird Nest Box Information

## Locating your nest box

**The best location for your nest box will be between 1.5m and 2m off the ground, attached to a tree, wall or fence. You may see websites telling you to put it at least 3m off the ground but this will make it difficult to install and impossible to monitor and clean without a ladder.**

**Face it northeast so that it is out of direct sunlight and facing away from the prevailing winds.**

**Also, make sure that the entrance is not facing upwards or rain will get in.**

**Try to ensure that there are no places next to it that a cat can perch, therefore grab birds going in and out.**

**Make sure there is nothing blocking the entrance such as branches and do not put it near bird feeders.**

**Nesting season usually starts in March so make sure you put the nest box up by February at the very latest.**

## Monitro eich bocs nythu

Ym mis Mawrth, gallwch ddechrau gwirio a oes unrhyw adar yn defnyddio'r bocs nythu. Datodwch y wifren a chodi'r caead yn ofalus i edrych y tu mewn. Efallai y bydd arwyddion o ddeunydd nythu yn y bocs, fel mwsogl, glaswellt, gwlân neu frigau.

Os oes adar yn defnyddio eich bocs, gallwch ddechrau eu monitro. Gallwch edrych y tu mewn yn sydyn unwaith yr wythnos i weld sut maen nhw'n dod yn eu blaen. Mae'r tymor nythu drosodd fel rheol erbyn diwedd mis Mai i ganol mis Mehefin.

Gellir cofnodi'r holl waith monitro bocsys nythu drwy wefan y BTO (Ymddiriedolaeth Adareg Prydain).

https://www.bto.org/our-science/projects/nesting-neighbours

## Cynnal a chadw eich bocs nythu

Mae'r Gyfraith Diogelu Adar yn caniatáu glanhau nythod rhwng 1 Medi a 31 Ionawr. Yn ystod y cyfnod hwn, tynnwch yr hen nyth ac unrhyw wyau heb eu deor o'r bocs yn llwyr. Yn anffodus, efallai y byddwch yn dod o hyd i gywion marw hefyd, sydd heb oroesi. Defnyddiwch fenig i dynnu popeth a'u rhoi yn eich bin olwynion, gwnewch yn siŵr eich bod yn golchi'ch dwylo wedyn. Yn ein gwarchodfeydd natur ni, mae cynnwys y bocsys nythu yn cael ei osod o dan wrych fel rheol er mwyn i'r deunydd nythu gael ei ailddefnyddio a'r wyau gael eu bwyta gan fywyd gwyllt. Efallai na fydd hyn yn bosibl yn eich gardd chi felly eu taflu i'r bin sydd orau.

Nawr bod y bocs yn wag, gwnewch yn siŵr bod y bocs nythu yn aros yn lân ac yn rhydd o blâu a chlefydau. Berwch y tegell ac arllwyswch y dŵr berwedig y tu mewn, bydd hyn yn ei lanhau yn barod ar gyfer yr adar nesaf sydd eisiau symud i mewn.

## Monitoring your nest box

In March, you can start to check if any birds are using the nest box. Unravel the wire and gently lift the lid to look inside. There may be signs of nesting material like moss, grass, wool or twigs.

If there are birds using your box, you can start to monitor them. You can look inside briefly once a week to check how they are progressing. The nesting season is usually over by the end of May to mid-June.

All nest box monitoring can be recorded via the BTO (British Trust for Ornithology) website

https://www.bto.org/our-science/projects/nesting-neighbours

## Maintaining your nest box

Bird Protection Law permits the cleaning out of nests between 1st September and 31st January. During this time, completely remove the old nest and any unhatched eggs. Unfortunately, you may also find dead chicks that have not made it. Use gloves to remove everything and put in your wheelie bin, make sure you wash your hands afterwards. On our nature reserves, the nest box contents are usually placed under a hedge for the nest material to be reused and the eggs to be eaten by wildlife. This may not be possible in your garden so throwing in the bin is best.

Now the box is empty, ensure the nest box stays clean and free of pests and disease. Boil the kettle and pour the boiling water inside, this will sanitise it ready for the next birds to move in.